# Creu Newid sy'n Para:

## Dogfen crynhoi maniffesto Cymorth i Ferched Cymru

Ym mis Hydref 2020 cyhoeddon ni ein galwadau maniffesto i bleidiau gwleidyddol Cymru: Creu Newid sy'n Para. Yn y cyfnod yn arwain at etholiadau'r Senedd ym mis Mai, mae'r un mor hanfodol nawr ag erioed i barhau â'r sgyrsiau ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) a sicrhau bod dileu VAWDASV yn flaenoriaeth wleidyddol i Lywodraeth nesaf Cymru.

## Ailosod Trais yn Erbyn Menywod yn flaenoriaeth

Ceir cyfle nawr i adnewyddu'r ymrwymiad traws-lywodraethol a thrawsbleidiol i ddileu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sydd ei hun yn 'epidemig'.1 Mae bron i chwe blynedd ers cyflwyno Deddf VAWDASV (Cymru) 2015 yng Nghymru, oedd yn garreg filltir bwysig. Gyda chyflwyno'r Bil Cam-drin Domestig yn San Steffan, mae angen i ni sicrhau bod Cymru'n parhau'n uchelgeisiol yn ei hymrwymiad i ddileu pob math ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae pandemig COVID-19 a thrafodaethau cyhoeddus diweddar ynghylch diogelwch menywod wedi dangos bod trais a gwreig-gasineb yn dal i fod yn rhan fawr o'n cymdeithas. Mae angen arweinyddiaeth gref ac ymrwymiad trawsbleidiol i ddiogelu ac atal er mwyn gweld cynnydd amlwg at ddileu VAWDASV yng Nghymru. Mae ein galwadau maniffesto'n egluro'r gweithredu sydd ei angen.

## 13 Cwestiwn Allweddol

Rydym ni wedi datblygu 13 o flaenoriaethau allweddol yr hoffem i'r holl bleidiau ymrwymo iddyn nhw. Gallwch ddarllen y camau manwl ar gyfer pob blaenoriaeth yn y ddogfen lawn: [ENG] [CYM]

- Ymrwymiad i weithredu Strategaeth VAWDASV Genedlaethol drawslywodraethol
- Gweithio mewn ffordd ryngblethiadol, gan gydnabod anghenion pob goroeswr
- Cyllid diogel a chynaliadwy i'r holl sector VAWDASV arbenigol ledled Cymru
- Comisiynu gwybodus, cydweithredol ac effeithiol
- Cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau a chymorth arbenigol i blant a phobl ifanc
- Lleisiau goroeswyr fel partneriaid allweddol yn y gwaith o ddatblygu a chyflenwi polisïau ac arferion
- Blaenoriaethu atal, ymyrryd yn gynnar ac addysg
- Ymrwymiad i gefnogi menywod y camfanteisir arnynt gan y diwydiant rhyw
- Ymrwymiad i gefnogi goroeswyr sydd Heb Hawl i gael Cyllid Cyhoeddus
- Buddsoddi mewn ymyriadau i ddrwgweithredwyr sydd â sicrwydd ansawdd cadarn ac sy'n mynd i'r afael â holl ddrwgweithredwyr VAWDASV
- Cefnogi rôl Iechyd yn y gwaith o gynorthwyo goroeswyr a monitro dyletswyddau o dan y Ddeddf
- Sicrhau bod tai a chymorth diogel, fforddiadwy a phriodol i bob goroeswr
- Cydnabod bod aflonyddu rhywiol yn niweidio menywod ledled Cymru a chefnogi ymgyrchoedd i'w ddileu